Adnabod Awdur

Gwyn Morgan

Dwi wedi bod yn athro ysgol gynradd ers cyn cof. Cyn hynny roeddwn i'n gwneud peth wmbredd o waith yn ystod y gwyliau – yn weithiwr i'r cyngor, curadur mewn amgueddfa, gofalu am bobl anabl, glanhau ffenestri a dosbarthu bara i siopau Cwm Cynon. Erbyn hyn, dwi wedi rhoi'r gorau i ddysgu ac yn awdur amser llawn.

Dwi'n ymweld ag ysgolion i drafod fy ngwaith gyda phlant o bob oedran a dwi'n cynnal gweithdai ysgrifennu creadigol mewn gwahanol ganolfannau. Dwi'n hoff o weithio gyda phlant a gweld eu hyder yn cynyddu wrth ysgrifennu.

Doeddwn i ddim yn hoffi darllen yn yr ysgol gynradd am fod y llyfrau bryd hynny mor ddiflas a di-fflach. Roeddwn i'n mwynhau darllen comics a thrwy hynny'n darllen y stori drwy luniau.

Mae gweithio gyda Dai Owen wedi bod yn goron ar y cyfan, greda i. Mae ganddo ddychymyg byw ac mae ei ddawn i dynnu lluniau gwreiddiol wedi ychwanegu at y profiad hyfryd o gyfleu stori. Mae ganddo lygad am fanylder. Sbïwch ar rai o'r storïau – medrwch ddarllen llif y stori drwy'r darluniau yn unig.

Mae yna nifer o bethau sy'n gwneud imi chwerthin. Byddaf yn troi bwli yn rhywbeth i chwerthin ar ei ben drwy roi traed hir neu fola mawr iddo. Dydy bwli ddim hanner mor ddychrynllyd os oes ganddo nodweddion doniol.

Llyfrau Gwyn Morgan sydd mewn print

(Cyhoeddwr: Dref Wen)

Cyfres Fflach Doniol
Dyg a Dêf Diawledig
Twpsyn
Babi Ben
Isi a'r Cloc
Jazz
Abracadabra
Psst!
Llew Lletchwith

Cyfres Llyfrau Lloerig
Ben ar ei Wyliau
Rwba Dwba

Llyfrau eraill
Posau Gwallgo!
Tu Chwith
Dannedd Gosod Ben
Hari Hyll yr Ail
Jôcs Gwirion Gwyn a Dai
(Gwasg Carreg Gwalch)

Adnabod Awdur

Gwyn Morgan

Dyddiad Geni: 28 Mai 1954

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais fy ngeni yn Ysbyty Aber-nant, Aberdâr, a fy magu yn Nhrecynon, Aberdâr.

Ble cawsoch chi eich addysg? Ysgol Gymraeg Ynyslwyd, Aberdâr; Ysgol Gyfun Rhydfelen, Pontypridd; a Choleg y Drindod, Caerfyrddin.

Beth oeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roeddwn i'n hoffi chwaraeon, cinio ysgol a'r merched pert. Doeddwn i ddim yn hoffi gwaith coed na gwaith metel.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny? Awdur, heb os nac oni bai. Roeddwn i'n edmygu awduron a beirdd

Beth yw eich diddordebau? Cerdded, ysgrifennu, darllen, gwrando ar gerddoriaeth glasurol a jazz, mynd i'r capel, bwyta ...

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Bod gyda fy ngwraig, Joyce, a'm ffrindiau o gwmpas y bwrdd yn adrodd storïau doniol.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Bwlis, a chlywed rhywun yn parablu am arian.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Ar ôl i fy nhad farw. Ysgrifennais gerdd a'i phostio i'r ***Faner*** ac fe'i cyhoeddwyd hi wythnosau'n ddiweddarach.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? ***Dannedd Gosod Ben*** (diolch i Wasg y Dref Wen).

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Nac ydw, mae'n rhaid imi aros i'r syniadau a'r cymeriadau ymddangos o'r cysgodion.

O ble ydych chi'n cael eich syniadau? Wrth ddarllen gwahanol ffynonellau a gwylio pobl mae rhai syniadau'n blodeuo.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu/barddoni? Sylwch ar y ffordd mae awduron eraill yn ysgrifennu. Felly darllenwch, darllenwch, darllenwch.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Fy mola. Mae e'n rhy dew o lawer.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau? Dwi'n gwrando ar y radio yn lle gwylio'r teledu.

Beth yw eich hoff fwyd? Cyrri fy ngwraig, Joyce.

Beth yw eich hoff le yn y byd? Penderyn, wrth gwrs. Dyma lle dwi'n byw a dyma lle mae fy ffrindiau.

Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall? Fy nghyfeillgarwch â Dai Owen. Mae'n ddyn mwyn ac yn artist ysbrydoledig.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin? Ffilmiau'r Marx Brothers, ***Monty Python***, ***The Goons*** a Dai Owen.

Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru? Mae degau o hetiau gwahanol yn y tŷ gan fy mod yn eu casglu. Ar ôl pryd o fwyd mae pawb yn gwisgo het o wlad arbennig ac yn chwerthin.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

gwales.com
llyfrau ar-lein books online

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

2011